# OWAIN ab EDWIN (bu farw 1105), uchelwr yn Nhegeingl (Sir y Fflint yn awr).

**Enw:** Owain ab Edwin
**Dyddiad marw:** 1105
**Plentyn:** Angharad ferch Owain ab Edwin
**Plentyn:** Gronw ab Owain ab Edwin
**Rhiant:** Iwerydd ferch Cynfyn ap Gwerstan
**Rhiant:** Edwin
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** uchelwr
**Maes gweithgaredd:** Perchnogaeth Tir; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

Dywedid mai meibion oedd ef a'i frawd, Uchtryd, i Edwin ap Gronw (gor-or- yr Hywel Dda) ac Iwerydd, hanner-chwaer Bleddyn ap Cynfyn. Serch i Owain gynorthwyo yr iarll Hugh o Gaer yng nghyrch annhymig hwnnw yn erbyn Gwynedd yn 1098, priododd Angharad, ei ferch, â Gruffydd ap Cynan. Gronw ei fab, oedd tad Christina, ail wraig Owain Gwynedd. Ni ddylid cymysgu rhyngddo â chefnder ei dad, hwnnw hefyd yn Owain ab Edwin, eithr o linach tywysogion Deheubarth.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau


J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

*Oxford Dictionary of National Biography*


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Owain ab Edwin of Tegeingl

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7114252


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu